# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRONFA BENSIWN

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 1, CANOLFAN DDINESIG, ABERTAWE., DYDD IAU, 14 GORFFENNAF 2016 AM 10.00 AM

**YN BRESENNOL**: Bu'r Cynghorydd P Downing (Is-Gadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M Thomas | C E Lloyd | J Newbury |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeffrey Dong | Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol |
| Debbie Smith | Cyfreithiwr y Gyfarwyddiaeth |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**HEFYD YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| N Mills | Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol |
| V Furniss | Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P Rees, R C Stewart a/ac D G Sullivan

5 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol: -

Y Cynghorydd P Downing - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy mrawd yn gweithio i'r cyngor ac yn cyfrannu i'r Gronfa Bensiwn.

**NODWYD** bod y Cynghorydd P Downing wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau yn yr achos hwn.

Y Cynghorydd C E Lloyd - yr agenda yn ei chyfanrwydd - mae fy nhad yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

Y Cynghorydd J Newbury - rwyf wedi derbyn pensiwn y cyngor sydd wedi cael ei drosglwyddo i fi yn dilyn marwolaeth fy ngwraig - personol.

Y Cynghorydd M Thomas - yr agenda yn ei chyfanrwydd - rwyf fi a fy ngwraig yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - personol.

**NODWYD** bod y Cynghorydd M Thomas wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau o ran ei wraig.

## 6 COFNODION.

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2016 yn gofnod cywir.

## 7 HYFFORDDIANT PWYLLGOR Y GRONFA BENSIWN.

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad er mwyn pennu rhaglen hyfforddiant flynyddol ar gyfer Ymddiriedolwyr a Swyddogion y Gronfa Bensiwn. Byddai'r hyfforddiant yn sicrhau cydymffurfiad â Chôd Ymarfer Gwybodaeth a Sgiliau Pensiynau Sector Cyhoeddus CIPFA.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r hyfforddiant a nodwyd ar gyfer aelodau a swyddogion a amlinellwyd uchod.

## 8 DYRANNU ISADEILEDD - Y DIWEDDARAF.

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi'r diweddaraf am benodiad y Rheolwr Buddsoddi mewn Isadeiledd a gymeradwywyd gan Bwyllgor y Gronfa Bensiwn ar 3 Rhagfyr 2014.

## 9 ADRODDIAD AR ROI'R GORAU I GORFF CYDNABYDDEDIG - COLIN LAVER. (ER GWYBODAETH)

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad 'er gwybodaeth' ynglŷn â darfyddiad Colin Laver Heating Ltd. fel Corff Cydnabyddedig yng Nghronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.

## 10 ADRODDIAD (AU) RHEOLAETHAU MEWNOL.

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn hysbysu Pwyllgor y Gronfa Bensiwn am eitemau adroddadwy o fewn adroddiadau dulliau rheoli mewnol rheolwyr y gronfa.

## 11 GWAHARDD Y CYHOEDD.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

## 12 ADRODDIAD (AU) GAN YR YMGYNGHORWYR ANNIBYNNOL.

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno diweddariad economaidd a sylwebaeth y farchnad o safbwynt yr Ymgynghorwyr Buddsoddi Annibynnol a benodwyd. Rhoddodd Mr N Mills ddiweddariad economaidd a sylwebaeth y farchnad a chyflwynodd Mr V Furniss adroddiad ar fuddsoddiadau ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016. Fe gyflwynodd hefyd y cyfraddau cyfnewid a'r dychweliadau mynegai ar gyfer y cyfnod o 31 Mawrth i 7 Gorffennaf 2016, a rhai manylion hanfodol yn dilyn y refferendwm i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Nodwyd cynnwys pob adroddiad gan y pwyllgor a diolchwyd i'r Ymgynghorwyr Annibynnol am eu hadroddiadau.

## 13 CRYNODEB BUDDSODDI.

Rhoddodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol adroddiad er gwybodaeth a oedd yn cynnwys y perfformiad buddsoddi ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016. Wedi eu hatodi yn Atodiad 1 yr adroddiad oedd y Crynodebau Buddsoddi Chwarterol ar gyfer y Gronfa Bensiwn am y chwarter a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016.

## 14 CYFLWYNIAD GAN BWLL CENEDLAETHOL CYMRU I'R ADRAN CYMUNEDAU A LLYWODRAETH LEOL MEWN YMATEB I GYHOEDDI'R LGPS: MEINI PRAWF AC ARWEINIAD DIWYGIO BUDDSODDIAD YM MIS TACHWEDD 2015.

Cyflwynodd Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol gyd-argymhelliad, i'w gymeradwyo, mewn perthynas ag 8 Cronfa Bensiwn Cymru mewn ymateb i Feini Prawf ac Arweiniad Diwygio Buddsoddiad y Llywodraeth. Darparwyd y cyd-argymhelliad terfynol yn Atodiad 1 yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cyd-argymhelliad swyddogol mewn perthynas ag 8 Cronfa Bensiwn Cymru ar ran Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.

## 15 CYFLWYNIADAU - RHEOLWYR Y GRONFA.

(1) Cafwyd cyflwyniad gan Richard Dyson ar ran Rheoli Asedau Aberdeen - Ecwitïau Byd-Eang a Marchnadoedd Torri Tir Newydd;

(2) Cafwyd cyflwyniad ar y cyd gan Lyndon Bolton ac Andy Simpson ar ran Rheoli Asedau Schroders - Ecwitïau'r DU;

(3) Cafwyd cyflwyniad ar y cyd gan Adrian Brown a Monique Stephens ar ran Rheoli Asedau JP Morgan - Ecwitïau Byd-Eang.

Gofynnwyd cwestiynau gan y pwyllgor mewn perthynas â chynnwys y cyflwyniadau ar ddiwedd pob cyflwyniad, a chafwyd atebion gan y Rheolwyr Cronfa priodol.

Nodwyd cynnwys y cyflwyniadau a diolchodd y Cadeirydd i Reolwyr y Gronfa am ddod i'r cyfarfod.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.45 pm

**CADEIRYDD**